TGAU

# 3020U20-1A

**DYDD MAWRTH, 25 MAWRTH 2025 – BORE**
**TUESDAY, 25 MARCH 2025 – MORNING**

# CYMRAEG AIL IAITH – Uned 2
# WELSH SECOND LANGUAGE – Unit 2

## PRAWF A (Diwrnod 1)
## TEST A (Day 1)

## CYFATHREBU AG ERAILL
## COMMUNICATING WITH OTHER PEOPLE

## COPI'R YMGEISYDD
## CANDIDATE'S COPY

© WJEC CBAC Cyf.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

**Dewiswch UN dasg.**

**Cewch hyd at 10 munud (a'ch amser estynedig) i baratoi'r dasg hon.**

**Gallwch wneud nodiadau a thrafod gyda'ch partner/grŵp yn ystod y cyfnod hwn.**

**Ni chaniateir defnyddio geiriaduron neu unrhyw adnodd arall wrth baratoi.**

**Cyn gadael yr ystafell arholi rhaid i chi roi'r daflen hon ac unrhyw nodiadau a wnaethoch yn ystod y 10 munud i'r athro/athrawes sy'n cynnal y prawf.**

(Trowch y dudalen)
(Turn over)

# INFORMATION FOR CANDIDATES

**Choose ONE task.**

**You have up to 10 minutes' preparation time (plus your additional time allowance).**

**You may make notes and discuss with your partner/group during this time.**

**The use of dictionaries or any other resource is forbidden during preparation.**

**Before leaving the examination room this sheet and any notes you made during the 10 minutes must be given to the teacher conducting the test.**

(Trowch y dudalen)
(Turn over)

# NAILL AI
# TASG 1

## FY ARDAL I. Y LLE GORAU.





“Mae fy ardal i yn wych! Mae digon o siopau, caffis, sinema... ac mae gwifren Zip newydd tu allan i’r dref.”

**MALI**

“Dw i’n anghytuno – mae popeth mor ddrud. Tair punt am siocled poeth, deg punt i fynd i’r sinema; ac am y wifren Zip – anghofia fo..........naw deg punt!”

**TOM**

# FY ARDAL I. Y LLE GORAU.








## HOFFET TI FYW MEWN ARDAL ARALL?

## BETH HOFFECH CHI GAEL YN EICH ARDAL CHI?

- Parc graffiti
- Mwy o lwybrau cerdded
- Sinema awyr agored
- Bariau di-alcohol

"Mae'n gas gyda fi fy ardal. Does dim byd i'w wneud a does dim gwaith; diflas, diflas! Ar ôl gorffen TGAU dw i'n symud i Iwerddon i weithio gyda tad-cu."

CONNOR

## BYW YN Y WLAD MANTEISION:

- Byd natur
- Tawelwch
- Traethau a mynyddoedd

## ANFANTEISION:

- Dim bysus
- Dim siopau mawr
- Dim bywyd nos

## FY ARDAL I. Y LLE GORAU.

“Rydw i’n byw mewn tref fawr. Mae llawer i’w wneud yma. Dw i’n hoffi mynd i’r gampfa i godi pwysau ac i’r parc sglefrfyrddio gyda fy ffrindiau. Mae llawer o dwristiaid yn yr haf ac mae hi’n llawer rhy brysur!”

ZACK





**BYW YN Y DREF MANTEISION:**

- Siopau da
- Llawer i'w wneud
- Mwy o ddewis

**ANFANTEISION:**

- Gormod o draffig
- Sŵn
- Llygredd / sbwriel

**PROBLEMAU YN FY ARDAL I:**

- fandaliaeth
- sbwriel
- baw ci
- ymddygiad gwrthgymdeithasol
- diweithdra

NEU

# TASG 2

## YDY FFITRWYDD YN BWYSIG I TI?

 

> “Dw i wrth fy modd yn cadw’n heini! Rygbi ar y penwythnos, nofio bob bore cyn mynd i’r ysgol a rhedeg dair gwaith yr wythnos!”

**BELLA**

## MAE CADW’N HEINI A BWYTA’N IACH YN MYND LAW YN LLAW.

### CINIO



**Bocs bwyd iachus**

NEU



**Byrger a sglodion**

YDY FFITRWYDD YN BWYSIG I TI?

SUT MAE POBL IFANC YN
CADW'N HEINI?

BETH AMDANAT TI?



# YDY FFITRWYDD YN BWYSIG I TI?



“Dw i’n cadw fy mysedd yn heini wrth chwarae gemau cyfrifiadur!”

DEWI



“Mae llawer o waith ysgol gyda fi. Mae gwneud ioga yn helpu fi i ymlacio – CORFF IACH. MEDDWL IACH!”

DYLAN

## YDY FFITRWYDD YN BWYSIG I TI?

“Dw i’n gwneud llawer o ymarfer corff. Does dim rhaid i mi fwyta’n iach!”

LEVI

## WYT TI’N CYTUNO?

Os dydych chi ddim yn cadw’n heini a bwyta’n iach, gall arwainat lawer o broblemau pan fyddwch chi’n hŷn.

Pethau fel:

- gordewdra
- pwysau gwaed uchel
- diabetes
- clefyd y galon
- strôc

## MAE BWYD IACHUS YN COSTIO LLAWER!





Wyt ti’n gallu coginio?.....
Poeni am dy ddeiet?.....
Hoffet ti goginio bwyd iachus?
Gwersi coginio i bl10 ac 11
3.30 Dydd Mercher
Ystafell TG 12

NEU

# TASG 3

## YDY TECHNOLEG YN DATBLYGU'N RHY GYFLYM?

"Ffôn symudol tad-cu yn y 1980au!"

JOE

"Ces i ffôn yn anrheg Nadolig ond nawr mae model newydd eto ar gael. Mae'n costio llawer i gael y dechnoleg ddiweddaraf."

MATHEW



## BETH WYT TI'N WNEUD AR DY FFÔN?

- siarad gyda ffrindiau
- ffonio rhieni
- tynnu lluniau / gwneud fideos
- mynd ar y cyfryngau cymdeithasol
- gwneud gwaith ymchwil

# YDY TECHNOLEG YN DATBLYGU'N RHY GYFLYM?

"Hoffwn i weld byd heb ddim plastig. Dylai technoleg allu creu deunydd fyddai'n ddiogel i'r holl amgylchedd."

CERYS

"Mae mam-gu wrth ei bodd gydag Alexa. Mae hi'n siarad gydag Alexa yn aml – gwneud rhestr siopa, holi am y tywydd, amseru bwyd a chael ei hatgoffa o apwyntiadau."

SIWAN

## PA DECHNOLEG NEWYDD HOFFET TI WELD?










## YDY TECHNOLEG YN DATBLYGU'N RHY GYFLYM?

"Mam, wyt ti wedi clywed am ChatGPT?"

"Naddo. Beth ydy o?"

"Gwefan sy'n gallu ysgrifennu unrhywbeth i ti – llythyr, stori, traethawd .... Dyna'r gwaith cartref wedi'i sortio!"

"Paid ti â meddwl gwneud y fath beth!"

## YDY TECHNOLEG YN DATBLYGU'N RHY GYFLYM?

## PA APIAU WYT TI'N EU DEFNYDDIO AR GYFER GWAITH YSGOL ???

Tiwtor mathemateg

### HAPUS I DDEFNYDDIO TECHNOLEG

